# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 21 Chwefror 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(46)v3

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty: Buddion caffael cyhoeddus i'r economi a chymunedau lleol (30 munud)

### 4. Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Adroddiad Blynyddol Strategaeth Amgylcheddol 2010-11 (30 munud)
**Dogfen Ategol:**
Adroddiad Blynyddol ar y Strategaeth Amgylcheddol 2010-11

### 5. Dadl ar Ddulliau o Adfywio (60 munud)
**NDM4915 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu adolygu ei dulliau o ymdrin ag adfywio yn unol ag agenda'r Llywodraeth gyfan o fynd i'r afael â thlodi a chefnogi twf economaidd.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf, un o'i phrif raglenni ar gyfer adfywio cymunedol, yn dangos ei bod yn perfformio'n well drwy sicrhau bod gan y rhaglen dargedau clir, perthnasol a mesuradwy i fynd i'r afael â thlodi a bod cyllid wedi'i gyfeirio at gyrraedd y targedau hyn.

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosiectau adfywio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol sy'n atebol yn ddemocrataidd drwy gynyddu rôl cynghorau lleol yn y broses drwyddi draw.

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y gall canol tref bywiog chwarae rhan bwysig i adfywio economi cymuned.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod nad yw micro-reolaeth Llywodraeth Cymru o'i hagenda adfywio yn gweithio, ac y bydd rhaid i'r Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol fod yn bartneriaid gwirioneddol o ran strategaeth a chyflenwi er mwyn sicrhau adfywio cymunedol.

**6. Dadl ar Setliad yr Heddlu (60 munud)**
**NDM4916 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2012-2013 (Setliad Terfynol - Awdurdodau Heddlu) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2012.

**Dogfen Ategol:**
Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2012-2013 (Setliad Terfynol - Awdurdodau Heddlu) (Saesneg yn unig)

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mercher, 22 Chwefror 2012